

Davies, Ton 8, y sydd lenor, ac am i mi ar bob cyfrif adael allan y pedair pennod ar ddechreu y stori - eu bod yn *trifling*; a chydâ'r un *post* lythyr gan Garmonydd 9 yn dyweyd mai y pennodau cyntaf oedd y rhai goreu yn yr hanes'.

Ond mae mwy i ddod: 'Dranoeth derbynias lythyr gan D. Jenkins<sup>10</sup> yn fy anog i adael allan y bennod ar *cheek*, a chydâ'r un post archeb dda gan un arall ac yn fy hysbysu mai y bennod ar *cheek* oedd yr oreu yn ei dyb ef!' Mae'r llythyr yn gorffen yn rhyfeddol o heriol am un sydd, yn ei salwch, yn amau ei alluoedd creadigol ei hun: 'Nid ydwyf yn awgrymu am foment nad ydych chi yn hollol iawn gyda golwg ar y rhan y cyfeiriwch ati. Ond cawn weled'.

Barn Isaac Foulkes ar yr helynt oedd: 'cevais un wers nad anghofiaf, sef peidio byth a beirniadu gwaith dyn ar ei gais. Y mae gan bob awdwr ei ganonau ei hun am ei waith ei hun, ac nid doeth yn ei olwg yr hwn a'i trosedd'.<sup>11</sup> Beth bynnag, fe ymddangosodd *Gwen Tomos* yn y *Y Cymro* i gyd, rhwng Ebrill 1893 ac Ebrill 1894, a'i chyhoeddi'n llyfr gan Hughes a'i Fab cyn diwedd y flwyddyn.

### Nodiadau a Ffynonellau

1. Daw'r atgynhyrchiad o O'r Mwg i'r Mynydd, sef Gwibdeithiau Gol. "Y Brython" Oddicartref gan J. H. Jones (yn wynebu t.83).
2. Dyma drawsgrif o'r pedair llinell a hanner cyntaf: Ni chevais lonydd wedi hyn gan Mr Edwards heb sicrhau chwedl [ei air am 'nofel'] arall, ac er mwyn heddwch, dechreuais ysgrifenu 'Rhys Lewis' - pennod ar gyfer pob mis heb fod genyf air wrth gefn. Parhaodd am dair blynedd [...] Arwyddocâd y geiriau 'Wedi hyn' (uchod): roedd Y Dreflan, cyfres o storïau byrion gan Daniel Owen, wedi ymddangos yn Y Drysorfa ym 1879 a 1880. Bu'n llwyddiant mawr; felly dyma Roger Edwards yn pwysu arno am fwy - sef Hunangofiant Rhys Lewis.
3. Dyma drawsgrif o weddill y tudalen: Wedi ei chwblhau cyhoeddais hi yn llyfr 4/- [pedwar swllt] a gwerthais ddwy fil o gopiau - sef yr argraffiad - mewn chwe mis [...] Yna gwerthais y copyright i Mr. Hughes Wrexham a chyhoeddodd yntau ail argraffiad Cymraeg, ac yn ddilynol argraffiad Saesneg [...] Gwyddoch am y gweddill llenyddol cystal a minau. Ailgyhoeddwyd yr hunangofiant, gyda newidiadau, yng nghofiant Isaac Foulkes: Daniel Owen y Nofelydd: Bywgraphiad, 1903, Pennod 1: Yr Hunangofiant, tudalennau 1-7.
4. Cedwir y llythyr yng Nghasgliad Mrs E. Yale, Llanbedrog yn y Llyfrgell Genedlaethol. Fe'm hysbyswyd amdano gan y Prifardd Einion Evans fel rhan o ymchwil ei ferch, y ddiweddar Ennis Evans, ym Mhrifysgol Cymru, Bangor.
5. Mewn nodyn ar ddiwedd y bennod olaf yn Y Drysorfa (Rhagfyr 1884, L457): 'a'r Hunangofiant heb ei gyhoeddi'n gyflawn', mae'n datgan ei ddymuniad i'w ailgyhoeddi 'yn gyfrol destilus, ac am bris rhesymol', ac yn gofyn ar i'r, 'awyddwyr a'r awyddesau ysgrifenu yn ddiodei' ato. Mae pedair o'r pum pennod ychwanegol yn cwblhau'r stori, a'r bumed yn sôn am ymweliad Thomas Bartley â Choleg Y Bala. Mewn nodyn o flaen y bennod olaf yn Y Drysorfa (t.451), tybia: 'Gan fod hanes yr ymweliad yn dwyn ger bron gymeriadau enwog - cymeriadau ag y mae

gan y darllenwyr lawer o barch iddynt, byddai ei gyhoeddi [yn Y Drysorfa] braidd yn invidious'. Mae'n nodi hefyd fod 'nifer o'r cymeriadau hyn ar dir y byw (a hir y prathont, chwedl Thomas Bartley)'. Hyn oll o'r cyfrolau yng nghasgliad Gwasanaeth Llyfrgell a Gwybodaeth Cyngor Sir Y Fflint.

6. Ceir trawsgrif o'r llythyr yma, a'r lleill a ddyfynnir gennyf, a sawl un arall yn Daniel Owen, y Nofelydd: Bywgraphiad, (1903) gan Isaac Foulkes, Pennod XVIII: Ei Lythrau, tt.121-130.
7. Foulkes, Isaac. Daniel Owen, y Nofelydd: Bywgraphiad, t.124.
8. Fe'i henwir yn y List of Subscribers i argraffiad 1885 o Rhys Lewis fel 'Mr. Daniel Davies, Cashier, Tonystrad, Pontypridd'. Talodd am bum copi! Fe'i henwir hefyd yn Y Bywgraffiadur Cymreig hyd 1940, a cheir ynddo eglurhad ar y term cashier: roedd yn cashier (h.y. cyfrifydd) mewn glofa yng Nghwm Rhondda. Cyfrannodd yr helaeth i gyfnodolion ar hanes lleol, crefydd, bywgraffiadau a llên. Bu'n gyfrifol am y nodiadau bywgraffiadol yn Gwaith Barddonol Islwyn.
9. Fe'i henwir yn y List of Subscribers fel 'Mr H. B. Jones (Garmonydd) Llanarmon, Mold'. Talodd am dri copi o Rhys Lewis. Does dim sôn amdano yn Y Bywgraffiadur. Ond, yn ôl Just One Parish, the history of Llanarmon-yn-Iâl (1973) gan Dora Seed Knowles mewn cysylltiad â Barbara E. Parkin, roedd yn brifathro ar yr ysgol leol ar un adeg ac yn awdwr. Mae ei gerdd ddycheanol Gutto'r Cam Mawr yn Y Morthwyl Cynaf (llyfr o 140 o ddarnau adrodd) yn sôn am gystadleuydd eisteddfodol a gafodd gam (yn ei dyb ef!) ym meysydd y traethawd, yr englyn a'r unawd.
10. Fe'i henwir yn y List of Subscribers fel 'David Jenkins, Mus. Bac., Aberystwyth'. Talodd am dri copi. Does dim sôn amdano yn Y Bywgraffiadur, ond tybiaf (ar sail ei radd academiaidd a'i gyfeiriad) mai dyma'r David Jenkins a oedd yn ddarlithydd ar Gerddoriaeth yn y Coleg ger y Lli ar y pryd, a Phenfaeth yr Adran yn ddiweddarach pan gafodd ei hailagor ym 1899.
11. Foulkes, Isaac. op. cit. t.125.

### 'Opinions of the Press'

Argraffwyd pedair tudalen o 'Opinions of the Press' ar y trosiad Saesneg o Rhys Lewis yng nghefn Profedigaethau Enoc Huws (1891). Dyma'r dudalen gyntaf, gyda geiriau'r Gwir Anrhydeddus W.E.Gladstone yn cael y lle blaenaf. Ar weddill y dudalen mae'r rhan fwyaf o'r sylwadau 'from a column review in the Scottish Leader'.

Ar y tudalennau dilynol ceir crynodaau o adolygiadau canmoliaethus yn *The Sheffield Telegraph*, *The South Wales Free Press*, *The*

*Liverpool Mercury*, *The Scotsman*, *The Saturday Review*, *The Sheffield Independent*, *Baner ac Amserau Cymru*, *The Carnarvon and Denbigh Herald*, *Y Llan*, *The Literary World*, *The North Wales Observer*, *The Western Mail*, *The Manchester Guardian*, *The British Weekly*, *The Nonconformist*, *The*

In Cloth Boards, price 3 6, Illustrated.

THE NEW NOVEL

'RHYS LEWIS,'

Minister of Bethel:

AN AUTOBIOGRAPHY.

By DANIEL OWEN.

Translated from the Welsh by JAMES HARRIS,

*Editor of "The Red Dragon," the National Magazine of Wales; Author of "The Bar Sister," "Billy Morgan, Pit Girl," "Herbert of Glaslyn," "A Story of the Eisteddfod, The Chapel & The Coal Mine," &c., &c.*

OPINIONS OF THE PRESS.

"I have read through, 'The Life of Rhys Lewis,' which you kindly sent me. Its delineations of Welsh character are the best which I have seen, and nothing can be happier than the mode in which the highest truths are exhibited in contact with less elevated matter. I apply these remarks especially to the first moiety of the work." *Ed. Hon. W. E. GLADSTONE.*

"The thanks of all English readers who can appreciate a masterly picture of a life strange to their own habits, and stamped with the quaint and patriarchal serious features that were commoner a generation or two ago than they are today, are due to the editor of 'The Red Dragon' for placing this work within reach. Not many such books have blessed the dull season. It seems to bring 'with it, appropriately enough, the refreshing breath of the Welsh hills, or even to transport its readers bodily to the peaceful valley where most of the events here recorded took place. Rhys Lewis tells his own story, which contains in itself little to excite the interest of anyone outside the village of Bethel; but his pages present a long succession of sketches, drawn by no 'prentice hand, of people who mostly fall under the interesting category of 'characters' and whose descriptions must infallibly attract the attention of that wide class of practical philosophers who

dearly love a cheerful laugh. Nor are these portraits overlaid with too careful detail; a few clever, telling touches sets before us one after another of the old-world folk with whom the author has to do. Scenes there are in the book, too, full of pathos of a kind to make a man weep, and feel the better and the stronger for his tears. And just, for here, writing for his own diversion, and with no view to publication, the shy pastor is free from the dreaded eye of his elder, - David Davis, by whose opinions he so often finds himself guided. We have not space here to do more than refer to the number of characters, mostly strongly marked types of their several classes, who are introduced, from the rough old soldier turned schoolmaster to the pompous squire and the well-meaning vicar; from the clever, studious minister to the willing Sath, who unable to read, opens his hymn-book at random, and then wishes for someone to whom he can show the place. These and many more perform their parts in the slow-moving narrative, and prove of them have won your friendship long before the story is brought to an end. A man must have as little sense of humour as of vigorous common-sense who is not drawn to reckless, honest-hearted Will Bryan, or does not wish that worthy a better fortune than he enjoys when last we hear of him; and the

Hysbyseb a ymddangosodd ar ddiwedd argraffiad Saesneg 1891 o Rhys Lewis. Cofwyd sylwadau W. E. Gladstone o'r *The Scottish Leader*.

*Liverpool Daily Post*, *The Whitehall Review* a *The Chester Chronicle*.

Dewis arall os bydd y gofod yn brin, er mwyn cynnwys y sôn am 'Opinions of the Press' (ond gobeithio bydd lle iddo i gyd, o ran yr argraff a greir, a'r ffordd y gellir cynllunio'r rhan honno o'r dudalen fel yr amgaaedig):-

Ar y tudalennau dilynol ceir crynodaau o adolygiadau canmoliaethus mewn deunaw o bapurau newydd a chyfnodolion amrywiol yng Nghymru a Lloegr a'r Alban.

Addasiad o ysgrif a ymddangosodd gyntaf yn *Papur Fama* (papur bro Yr Wyddgrug a'r cylech), rhifynnau Tachwedd 2004 a Chwefror 2005 yw'r erthygl hon).

**AM DDIM**  
(Tal cludiant yn unig)

Glam County Magazine cyf. 1 rhif.1 1948  
Teaching Welsh History in Sec. Schools, A. H. Dodd 14tud.  
Elias' Letters, Essays and other papers 1849  
Y Diwygiwr 1877-78, un gyfrol 388 + 384 tud.  
Undeb Cymru Fydd 1929-60  
Diwygywr Cymru, Beriah G. Evans 1900  
Tro Trwy'r Gogledd, O. M. Edwards 1901  
Newyn a Haint yng Nghymru, G. P. Jones  
Cerddi'r Ffrwd, G. P. Jones 1963  
Llafar, haf 1959, gol. A. Talfan Davies 92tud.  
Clych Atgol, O. M. Edwards 1921  
Onau gydag Enwogion, Anthopos 1914  
Gemau Ceredigion, J. Jones, Caerdydd d.d. (1918?)  
Llyfr Deil, O. M. Edwards 1906  
Plwm Pwddin, D. Jacob Deffis, Aberystwyth 1950  
Carlo's Post, Parch. Daniel Williams, 3ydd argraffiad 1948  
Mabinogion, J. M. Edwards, Wrexham 1921  
Dyddiadau'r Gofid, D. Owen, Llundain 1950  
Yr Aelwyd (rhif. 1-10) 204 tud.  
Cysyllter ar 01267 234347